

Atal Ward 35 rhag Cau

Pwyllgor Deisebau | 17 Medi 2019
Petitions Committee | 17 September 2019

Cyfeirnod: RS19/10339

Rhif y ddeiseb: P-05-896

Teitl y ddeiseb: Atal Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl rhag Cau

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal unig ward dementia Merthyr Tudful rhag cau. Mae Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn darparu seibiant hanfodol i deuluoedd ac anwyliaid preswylwyr lleol sy'n dioddef clefyd Alzheimer a ffurfiau eraill ar ddementia. Heb yr ased hanfodol hwn, mae bygythiad gwirioneddol o niwed y gellir ei atal i'r bobl fwyaf agored i niwed. Erbyn hyn, ni all llawer o bobl ofalu am aelodau'r teulu sydd â'r cyflwr hwn oherwydd bod angen gofal arnynt hwythau neu oherwydd pwysau gwaith ac ymrwymadau gofal plant. Ystyriwch y goblygiadau negyddol ehangach o gau'r ward hon a'r boen y byddai'n ei hachosi i lawer o deuluoedd, y byddai eu ward dementia agosaf filltiroedd i ffwrdd.

Y cefndir

Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor dyddiedig 2 Awst 2019, dywed y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y sefydlwyd Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a Ward 7 yn Ysbyty Cwm Cynon tua saith mlynedd yn ôl fel rhan o raglen strategol



Bwrdd Iechyd Cwm Taf i foderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn. Y bwriad oedd darparu gofal i gleifion oedd angen eu derbyn i'r ysbyty am gyfnod hwy o driniaeth cyn eu rhyddhau.

Mae'r Gweinidog yn nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi dweud bod nifer y bobl sydd angen y math hwn o ofal wedi gostwng yn sylweddol ers hynny am amrywiol resymau, gan gynnwys y buddsoddiad a wnaed i gryfhau gwasanaethau cymunedol yn agosach i'r cartref a datblygiadau mewn triniaethau. Ar gyfer trigolion Merthyr Tudful, mae'n debygol y bydd nifer y cleifion sydd angen gofal o'r fath mewn ysbyty yn llai na deg y flwyddyn.

Dywedir bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi model mwy holistig o ofal yng Nghwm Cynon, sydd hefyd yn cynnwys gwasanaeth gofal dydd estynedig i gefnogi cleifion allan o'r ysbyty. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i edrych ar yr opsiwn o gyfleuster tai gofal ychwanegol ac ymestyn gwasanaethau i gleifion.

Mae'r Gweinidog yn cydnabod y pryderon ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo cleifion i Ysbyty Cwm Cynon ar ôl cau Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a'r materion ymarferol y gallai hyn eu codi i rai teuluoedd. Gan gydnabod y bydd rhaid i deuluoedd deithio pellter hwy i ymweld â Chwm Cynon, aiff y Gweinidog ymlaen i ddweud bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu gwasanaeth cludiant i'w helpu, sy'n cael ei ddarparu gan yr elusen Hafal fel rhan o gynlluniau Ward 35. Mae'r Bwrdd Iechyd nawr yn edrych ar gyfleoedd i ymestyn y gwasanaeth hwn i deuluoedd.

Dywedodd [erthygl](#) Wales Online ym mis Chwefror 2019 fod Bwrdd Iechyd Cwm Taf wedi cadarnhau y byddai'r ward yn cau. Mae'r erthygl yn nodi bod rhai teuluoedd wedi honni y gallai'r symudiad achosi 'poendod mawr' i'r cleifion agored i niwed a'u teuluoedd a fyddai'n gorfod dod o hyd i lety arall.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.